OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 491 (Cy. 89) (C. 20)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30) ("y Ddeddf"). Y rhain yw'r trydydd rheoliadau cychwyn sydd wedi eu gwneud o dan y Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym Ran 2 o Atodlen 12 ac adran 73(d), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Ddeddf, ar 16 Ebrill 2025.

Mae adran 73(d) yn deddfu Rhan 2 o Atodlen 12 i'r Ddeddf sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993 (p. 11). Mae Rhan 2 o Atodlen 12 yn diwygio, o ran Cymru, y weithdrefn ar gyfer datgan tanwydd i'w awdurdodi neu le tân i'w esemptio at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Aer Glân 1993, drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi rhestr o'r tanwyddau a'r lleoedd tân hyn, ac i ddiweddaru'r rhestrau hyn yn ôl yr angen.

NODYN AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy reoliadau cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.

2025 No. 491 (W. 89) (C. 20)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Environment Act 2021 (Commencement No. 3) (Wales) Regulations 2025

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations bring into force specified provisions of the Environment Act 2021 (c. 30) ("the Act"). These are the third commencement regulations made under the Act.

Regulation 2 brings into force Part 2 of Schedule 12 and section 73(d), in so far as it relates to that Part of the Act, on 16 April 2025.

Section 73(d) enacts Part 2 of Schedule 12 to the Act which makes amendments to the Clean Air Act 1993 (c. 11). Part 2 of Schedule 12 amends, for Wales, the procedure for declaring a fuel to be authorised or fireplace to be exempt for the purposes of Part 3 of the Clean Air Act 1993, by enabling the Welsh Ministers to publish a list of these fuels and fireplaces, and to update these lists as needed.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT REGULATIONS

(This note is not part of the Regulations)

The following provisions of the Act have been brought into force by commencement regulations made before the date of these regulations.

Mae darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy reoliadau cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adran 50	7 Mawrth 2022 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru)	O.S. 2022/223 (Cy. 71) (C. 10)
Adran 60	7 Mawrth 2022 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru)	O.S. 2022/233 (Cy. 71) (C. 10)
Adran 64	7 Mawrth 2022 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru)	O.S. 2022/233 (Cy. 71) (C. 10)
Adran 79	1 Mawrth 2025 (i'r graddau y mae'n ymwneud ag ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru)	O.S. 2025/175 (Cy. 37) (C. 7)
Atodlen 4	7 Mawrth 2022 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru)	O.S. 2022/233 (Cy. 71) (C. 10)

The provisions of the Act listed in the table below have been brought into force in relation to Wales by commencement regulations made by the Welsh Ministers.

Provision	*Date of Commencement*	*S.I. No.*
Section 50	7 March 2022 (so far as relating to Wales)	S.I 2022/223 (W. 71) (C. 10)
Section 60	7 March 2022 (so far as relating to Wales)	S.I. 2022/233 (W. 71) (C. 10)
Section 64	7 March 2022 (so far as relating to Natural Resources Body for Wales)	S.I. 2022/233 (W. 71) (C. 10)
Section 79	1 March 2025 (so far as relating to undertakers whose areas are wholly or mainly in Wales)	S.I. 2025/175 (W. 37) (C. 7)
Schedule 4	7 March 2022 (so far as relating to Wales)	S.I. 2022/233 (W. 71) (C. 10)

Mae darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn y tabl isod wedi eu dwyn i rym o ran Cymru a Lloegr drwy reoliadau cychwyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Y Ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*	*Rhif O.S.*
Adrannau 1 i 7	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 8 i 15	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)
Adran 16	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 17 a 18	10 Mai 2022	O.S. 2022/518 (C. 21)

The provisions of the Act listed in the table below have been brought into force in relation to England and Wales by commencement regulations made by the Secretary of State.

Provision	*Date of Commencement*	*S.I. No.*
Sections 1 to 7	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Sections 8 to 15	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Section 16	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Sections 17 and 18	10 May 2022	S.I. 2022/518 (C. 21)

Adran 19	10 Mai 2022 (yn rhannol)	O.S. 2022/518 (C. 21)	Section 19	10 May 2022 (partially)	S.I. 2022/518 (C. 21)
	1 Tachwedd 2023 (at yr holl ddibenion sy'n weddill)	O.S. 2023/381 (C. 18)		1 November 2023 (for all remaining purposes)	S.I. 2023/381 (C. 18)
Adran 20	10 Mai 2022	O.S. 2022/518 (C. 21)	Section 20	10 May 2022	S.I. 2022/518 (C. 21)
Adran 21	1 Ebrill 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Section 21	1 April 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 22 i 24	17 Tachwedd 2021	O.S. 2021/1274 (C. 72)	Sections 22 to 24	17 November 2021	S.I. 2021/1274 (C. 72)
Adran 25	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Section 25	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adran 26	17 Tachwedd 2021	O.S. 2021/1274 (C. 72)	Section 26	17 November 2021	S.I. 2021/1274 (C. 72)
Adran 27	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Section 27	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 28 i 30	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Sections 28 to 30	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 31 i 41	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Sections 31 to 41	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 42 a 43	24 Ionawr 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Sections 42 and 43	24 January 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 44 i 47	17 Tachwedd 2021	O.S. 2021/1274 (C. 72)	Sections 44 to 47	17 November 2021	S.I. 2021/1274 (C. 72)
Adran 57	17 Mai 2024	O.S. 2024/639 (C. 40)	Section 57	17 May 2024	S.I. 2024/639 (C. 40)
Adran 73	1 Mai 2022 (yn rhannol)	O.S. 2022/48 (C. 2)	Section 73	1 May 2022 (partially)	S.I. 2022/48 (C. 2)
Adrannau 74 i 77	17 Mai 2024	O.S. 2024/639 (C. 40)	Section 74 to 77	17 May 2024	S.I. 2024/639 (C. 40)
Adran 81	17 Mai 2024 (yn rhannol)	O.S. 2024/639 (C. 40)	Section 81	17 May 2024 (partially)	S.I. 2024/639 (C. 40)
Adran 81	1 Ionawr 2025 (at yr holl ddibenion sy'n weddill)	O.S. 2024/639 (C. 40)	Section 81	1 January 2025 (for all remaining purposes)	S.I. 2024/639 (C. 40)
Adran 82(2)	17 Mai 2024 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym)	O.S. 2024/639 (C. 40)	Section 82(2)	17 May 2024 (insofar as it is not already in force)	S.I. 2024/639 (C. 40)
Adrannau 100 a 101	17 Ionawr 2024 (yn rhannol)	O.S. 2024/44 (C. 4)	Sections 100 and 101	17 January 2024 (partially)	S.I. 2024/44 (C. 4)
Adran 116	30 Medi 2022 (yn rhannol)	O.S. 2022/518 (C. 21)	Section 116	30 September 2022 (partially)	S.I. 2022/518 (C. 21)
Rhan 7	30 Medi 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Part 7	30 September 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Atodlen 12, Rhan 3	1 Mai 2022	O.S. 2022/48 (C. 2)	Schedule 12, Part 3	1 May 2022	S.I. 2022/48 (C. 2)
Atodlen 17	30 Medi 2022 (yn rhannol)	O.S. 2022/518 (C. 21)	Schedule 17	30 September 2022 (partially)	S.I. 2022/518 (C. 21)

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan O.S. 2021/1274 (C. 72), O.S. 2022/48 (C. 2), O.S. 2022/518 (C. 21), O.S. 2022/988 (C. 75), O.S. 2022/1266 (C. 100), O.S. 2023/381 (C. 18), O.S. 2023/1170 (C. 77), O.S. 2024/44 (C. 4) ac O.S. 2024/639 (C. 40).

Various provisions of the Act have been brought into force in relation to England by S.I 2021/1274 (C.72), S.I. 2022/48 (C. 2), S.I. 2022/518 (C. 21), S.I. 2022/988 (C. 75), S.I. 2022/1266 (C. 100), S.I. 2023/381 (C. 18), S.I. 2023/1170 (C. 77), S.I. 2024/44 (C. 4) and S.I. 2024/639 (C. 40).

2025 Rhif 491 (Cy. 89) (C. 20)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2025

Gwnaed *15 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 147(4)(f) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021(**1**).

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2025.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf yr Amgylchedd 2021.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 16 Ebrill 2025

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 16 Ebrill 2025—

(a) adran 73(d) (ardaloedd rheoli mwg: diwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993), i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru; a

(b) Rhan 2 o Atodlen 12 (prif ddiwygiadau i Ddeddf Aer Glân 1993: Cymru).

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
15 Ebrill 2025

(**1**) 2021 p. 30.

2025 No. 491 (W. 89) (C. 20)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Environment Act 2021 (Commencement No. 3) (Wales) Regulations 2025

Made *15 April 2025*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 147(4)(f) of the Environment Act 2021(**1**).

Title and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Environment Act 2021 (Commencement No. 3) (Wales) Regulations 2025.

(2) In these Regulations, "the Act" means the Environment Act 2021.

Provisions coming into force on 16 April 2025

2. The following provisions of the Act come into force on 16 April 2025—

(a) section 73(d) (smoke control areas: amendments of the Clean Air Act 1993), so far as it relates to Wales; and

(b) Part 2 of Schedule 12 (principal amendments to the Clean Air Act 1993: Wales).

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
15 April 2025

(**1**) 2021 c. 30.

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39691-1

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/491